# GULFOOD, DUBAI

17–21 Chwefror 2019

## Y Sectorau Allweddol

Bwyd a Diod

**Dyddiad Cau:**
22 Hydref 2018

Mynd â Chymru i'r Byd




## Pam Gulfood 2019?

**Gulfood yw un o'r sioeau bwyd a lletygarwch pwysica' yn y byd.** Gwnaeth Gulfood 2018 guro pob record gan groesawu dros 97,000 o ymwelwyr o 185 o wledydd ar arwynebedd o 1 miliwn troedfedd sgwâr. Mae dros 5,000 o stondinwyr wedi archebu'u lle eisoes i arddangos cynnyrch o 8 prif sector y farchnad.

## Opsiynau a Chostau Cymryd Rhan

Bydd gan Bwyd a Diod Cymru stondin yn y Neuadd Ryngwladol a stondin yn y Neuadd Laeth (yn yr un lle â'r rhan fwyaf o'r arddangoswyr eraill o Brydain).

Hoffwn ni wahodd cwmnïau i arddangos o dan frand Cymru Wales drwy'r pecyn Stondin Lawn ac rydym yn gwahodd cwmnïau sy'n arddangos am y tro cyntaf dramor i gymryd lle llai ar y stondin.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at gost arddangos o dan nawdd brand Cymru Wales – gwelwch yr opsiynau isod.

Dyma'r opsiynau ar gyfer arddangoswyr llawn, arddangoswyr tro cyntaf ac ymwelwyr:

### Pecyn A – Arddangos ar y Stondin Lawn

Cost £4,850 (gan gynnwys TAW) yn cynnwys:

- Tocynnau hedfan dwyffordd gyda brecwast i 2 berson (mae opsiwn 1 person ar gael)
- Man arddangos penodol ym Mhafiliwn Cymru (o leiaf 6 msg). Lleoedd mwy ar gael o ofyn amdanynt
- Cludiant ar gyfer eich cyfarpar arddangos (o fewn cyfyngiadau)
- Paneli graffig a dodrefn stondin
- Eich cynnwys yn nhaflen wybodaeth y sioe a deunydd marchnata
- Pas i'r arddangosfa ar gyfer hyd at ddau gynrychiolydd o bob cwmni
- Cymorth ar y safle gan Lywodraeth Cymru a chontractwyr penodol

**Dolen i'r ffurflen gais**

### Pecyn B – Arddangoswyr Tro Cyntaf Dramor*

Cost £1,600 (gan gynnwys TAW) yn cynnwys:

- Tocynnau hedfan dwyffordd gyda brecwast i 1 person
- Pod arddangos ichi yn y man cydarddangos ym Mhafiliwn Cymru
- Cludiant ar gyfer eich cyfarpar arddangos (o fewn cyfyngiadau)
- Mentora a chymorth penodol i baratoi ar gyfer y digwyddiad
- Eich cynnwys yn nhaflen wybodaeth y sioe a deunydd marchnata
- Un pas i'r arddangosfa (1 x pas arddangoswr)

*Nid yw'r cynnig hwn ar gael i gwmnïau sydd wedi cymryd rhan o'r blaen.

### Pecyn C – Ymwelwyr Allforio

Cost £1,300 (gan gynnwys TAW) yn cynnwys:

- Tocynnau hedfan dwyffordd gyda brecwast i 1 person
- Eich cynnwys yn nhaflen wybodaeth y sioe a deunydd marchnata
- Un pas i'r arddangosfa (1 x pas arddangoswr)

OGL WG35935 / © Hawlfraint y Goron 2018